

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

## Canllawiau ar Gwmpasu, Datganiadau Amgylcheddol a Cheisiadau am Ganiatâd AEA

Ebrill 2019

# Cynnwys


3 Cyflwyniad

4 Cwmpasu

6 Paratoi Datganiad Amgylcheddol

12 Cyflwyno Cais am Ganiatâd AEA

15 Atodiad 1
Gwybodaeth mae angen ei chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol


OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38339 ISBN digidol 978-1-83876-827-0

# Cyflwyniad

**Mae'r canllawiau hyn yn rhoi arweiniad ar sut i gael cyngor cwmpasu gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud cais am ganiatâd AEA ffurfiol a darparu Datganiad Amgylcheddol, a'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu defnyddio.**

Byddant yn berthnasol os ydych wedi derbyn ymateb sgrinio ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn datgan na ddylai eich prosiect fynd yn ei flaen ac wedi penderfynu o ganlyniad i wneud cais am ganiatâd ffurfiol i gynnal:

- prosiect amaethyddol mewn ardaloedd lled-naturiol, a/neu
- prosiect ailstrwythuro ar raddfa fawr ar ddaliadau tir gwledig.

Defnyddiwch y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 – Canllawiau Cyffredinol.

## Cysylltwch â Llywodraeth Cymru os oes gennych unrhyw amheuaeth

Gallwch gysylltu â'r tîm AEA yn EIA.Unit@gov.wales

Ffoniwch y Llinell Gymorth Cyswllt Cwsmeriaid ar: 0300 062 5004

### Drwy'r post:

Uned AEA
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
SY23 3UR

# Rhybudd

Mae'n anghyfreithlon gwneud gwaith na roddwyd caniatâd AEA ar ei gyfer. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i stopio unrhyw waith anawdurdodedig ac i adennill costau adfer gan y troseddwr. Gellir cyflwyno dirwyon mewn Llys Barn hefyd.

# Cwmpasu

Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr lunio Datganiad Amgylcheddol, yn yr achosion hynny lle mae rhai gweithrediadau ffermio mewn ardaloedd lled-naturiol a/neu brosiectau ailstrwythuro mawr ar ddaliadau tir gwledig yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol.

Ar ôl cael penderfyniad sgrinio ysgrifenedig o'r fath, ond cyn gwneud cais am ganiatâd, gallwch ofyn i Lywodraeth Cymru roi ei barn ar ba wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol a pha gyngor y gellir ei gael gan gyrff statudol.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ofyn am y Cyngor Cwmpasu hwn gan Lywodraeth Cymru cyn i chi gychwyn ar eich Datganiad Amgylcheddol.

# Ymdrin â'ch cais cwmpasu

Ar ôl cael cais cwmpasu ysgrifenedig, bydd Llywodraeth Cymru yn gwirio bod digon o wybodaeth wedi'i darparu er mwyn rhoi barn gwmpasu. Os ystyrir bod angen rhagor o wybodaeth, gofynnir am hon yn ysgrifenedig. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol ofynnol o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cais cwmpasu gwreiddiol.

Unwaith y daw gwybodaeth ddigonol i law, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â chyrff statudol eraill fel y bo'n briodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, y rhain fydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, CADW ac awdurdodau lleol yn ogystal ag unrhyw gorff arall â diddordeb er mwyn cael eu barn ynghylch effaith debygol y cynigion a beth mae angen ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Ond nid yw'r rhestr yn gyfyngedig i'r sefydliadau hyn.

# Cyfarfodydd cwmpasu

Yn aml, y dull hawsaf o ganfod beth sydd ei angen yw cyfarfod â phawb sy'n gysylltiedig. Os gofynnir am hyn o fewn y cais cwmpasu, bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu cyfarfod o'r fath, yn gweithredu fel Cadeirydd (os oes angen) ac wedyn yn darparu cyngor cwmpasu fel y nodir uchod.

# Cyngor cwmpasu

Waeth a fyddwch chi'n gofyn am gyfarfod cwmpasu ai peidio, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor cwmpasu ysgrifenedig o fewn 35 diwrnod i'r:

- dyddiad y derbyniwyd y cais cwmpasu gwreiddiol, neu
- lle bo'n berthnasol, y dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth ychwanegol.

### Bydd hyn yn:

- Disgrifio'r materion allweddol y dylid canolbwyntio sylw arnynt.
- Rhoi cyngor ar natur y wybodaeth sydd ei hangen.
- Esbonio bod gennych hawl i ofyn am wybodaeth amgylcheddol gan Lywodraeth Cymru neu gyrff statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Nodwch y gall rhai sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru godi tâl am y wybodaeth hon.
- Darparu rhestr o enwau a chyfeiriadau ar gyfer y cyrff statudol y gallech ddewis eu holi am wybodaeth.
- Egluro sut i gael gwybodaeth amgylcheddol gan Lywodraeth Cymru.
- Hysbysu bod gan Lywodraeth Cymru yr hawl, hyd yn oed ar ôl i gais am ganiatâd AEA a Datganiad Amgylcheddol gael eu cyflwyno, i ofyn i chi am wybodaeth am unrhyw agwedd a hepgorwyd yn anfwriadol yn ystod y broses o roi cyngor cwmpasu.

# Y camau nesaf

Bydd y weithdrefn gwmpasu yn dangos pa wybodaeth sydd ei hangen ac yn nodi sut i'w chael. Gall helpu i nodi dewisiadau eraill neu ddod o hyd i ffyrdd o leihau effeithiau'r prosiect ar yr amgylchedd.

**Mae angen ystyried costau'r prosiect a pharatoi Datganiad Amgylcheddol yn ofalus yn erbyn manteision amaethyddol posibl y prosiect a'r posibilrwydd o gael caniatâd AEA.**

Yn dilyn trafodaethau, efallai y bydd modd addasu'r prosiect fel nad yw bellach yn debygol o gael effaith amgylcheddol sylweddol. Yn y sefyllfa hon, mae'n bosibl cyflwyno cais sgrinio newydd ar gyfer y prosiect newydd.

Fel arall, rhan nesaf y broses yw paratoi Datganiad Amgylcheddol a chyflwyno cais am ganiatâd AEA.

# Paratoi Datganiad Amgylcheddol

Diben Datganiad Amgylcheddol yw disgrifio effeithiau amgylcheddol posibl prosiect ar dir lled-naturiol a/neu ddaliadau tir gwledig. Mae'n adroddiad manwl ar yr effeithiau hyn a dylai ddarparu digon o wybodaeth i bartïon â diddordeb wneud penderfyniad gwybodus a gwrthrychol ar y prosiect.

## Cyngor proffesiynol

Gallai cymorth proffesiynol wrth baratoi Datganiad Amgylcheddol fod yn fuddiol ond gallai costau gwasanaeth o'r fath fod yn ddrud, felly dylid eu hystyried yn ofalus.

Pethau i'w hystyried:

- Maint y prosiect a'i effaith bosibl ar yr amgylchedd.
- A yw'r effeithiau hyn yn hawdd eu hasesu ai peidio.
- Lefel yr incwm ychwanegol neu fuddiannau eraill o'r prosiect, a
- Chost cyflogi rhywun i baratoi'r datganiad.

Os gofynnir am gyngor proffesiynol, rhaid cynnwys datganiad gan neu ar ran yr ymgeisydd yn disgrifio arbenigedd y person a baratôdd y Datganiad Amgylcheddol.

Diben y Datganiad Amgylcheddol yw disgrifio natur y prosiect yn systematig, y rhesymau drosto, ei effeithiau posibl ar yr amgylchedd ac unrhyw fesurau a gymerir i osgoi neu leihau unrhyw effeithiau a allai fod yn niweidiol.

Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 yn nodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol (Atodiad 1). Bydd y gwerthusiad a wneir ar bob agwedd yn amrywio yn ôl pa mor arwyddocaol yw'r effaith y mae'r prosiect yn debygol o'i chael arni. Os gwnaed gwaith cwmpasu, bydd hyn yn helpu i nodi pa agweddau y mae angen eu hasesu'n fanwl.

Bydd y datganiad ar gael i'r cyhoedd a dylid ei ysgrifennu mor glir â phosibl.

Dylid darparu data arolwg, mapiau, diagramau a ffotograffau pan fyddant yn helpu i egluro pwynt. Efallai y byddai'n well rhoi'r rhain mewn Atodiad yn dibynnu ar y nifer.

Rhaid i'r adroddiad fod yn ffeithiol, yn wrthrychol ac yn ddiduedd. Os caiff rhagdybiaethau eu gwneud neu os rhoddir barn dylid eu datgan yn glir ynghyd â'r cyfiawnhad drostynt ac, os yw'n berthnasol, nodi cymwysterau'r sawl sy'n eu gwneud.

Pan fydd arolygon wedi'u cynnal, dylid disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a chofnodi'r dyddiadau.

Mae'n bwysig ystyried barn pobl sydd â diddordeb sy'n debygol o gael eu heffeithio yn ogystal â chyrff arbenigol.

# Fformat Datganiad Amgylcheddol

Dylai'r adroddiad gynnwys dwy ran – prif adran a chrynodeb annhechnegol. Dylai fod wedi'i strwythuro'n dda a dylai gynnwys y camau canlynol:

1. Disgrifiad o'r safle a'r prosiect.
2. Disgrifiad o'r effeithiau amgylcheddol.
3. Arwyddocâd yr effaith.
4. Lliniaru (mesurau i leihau'r effeithiau amgylcheddol).
5. Canlyniad.

Os cynhaliwyd ymarfer cwmpasu, argymhellir yn gryf fod y cyngor a dderbyniwyd yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r adroddiad. Bydd hefyd yn rhoi arweiniad i chi ynghylch natur y wybodaeth am blanhigion ac anifeiliaid y mae angen ei chasglu ac mae'n nodi pa wybodaeth sydd eisoes yn bodoli ac yn sicrhau nad oes gwaith diangen yn cael ei wneud.

## 1. Disgrifiad o'r safle a'r prosiect

Dylai'r adroddiad ddisgrifio natur y prosiect a'r rhesymau drosto. Dylid rhoi pwyslais ar ddisgrifio'r gweithrediadau hyn sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd e.e. y rhai sy'n debygol o darfu ar lystyfiant neu fywyd gwyllt, o achosi llygredd neu effeithio ar fwynhad pobl sydd â diddordeb. Dylid hefyd nodi'r rhesymau dros y prosiect yn ogystal â disgrifiad o'r dewisiadau eraill a ystyriwyd.

Dylai'r disgrifiad ffisegol o'r safle gynnwys y canlynol:

- Lleoliad
- Daeareg
- Priddoedd
- Topograffeg
- Draenio
- Llystyfiant
- Bywyd gwyllt
- Golwg y dirwedd
- Nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol, archaeolegol neu ddynol arall
- Manylion dynodiadau statudol
- Bodolaeth eiddo cyfagos a allai gael ei effeithio'n andwyol.

Bydd lefel y manylder sydd ei angen ar bob un yn amrywio yn ôl yr hyn sy'n ofynnol er mwyn gwerthuso'r tebygolrwydd o gael unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol.

Dylid cynnal arolygon, cofnodi data, cyflwyno canlyniadau a sylwadau mewn modd clir, rhesymegol a gwrthrychol gan ddefnyddio technegau casglu data a therminoleg addas. Dylai nodi hefyd a fydd unrhyw ddynodiadau, nodweddion neu rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol yn cael eu heffeithio os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

Yn y rhan fwyaf o achosion, y newidiadau i'r llystyfiant a'r effaith ar fywyd gwyllt fydd y pryderon mwyaf sylweddol. Cofiwch fod yn fanwl gywir ac osgoi datganiadau amwys. Er enghraifft, nid yw'n ddigon dweud y bydd "adar sy'n nythu ar y ddaear yn cael eu hamddiffyn". Mae'n well rhoi manylion rhywogaethau, pam yr ystyrir eu bod yn "arwyddocaol" ac a yw'r safle yn bwysig ar gyfer nythu, cysgodi, bwydo neu aeafu.

**I grynhoi, wrth ddisgrifio'r safle a'r prosiect, dylai'r Datganiad Amgylcheddol wneud y canlynol:**

- Rhoi disgrifiad ffeithiol o'r hyn a gynigir a'r rhesymau dros hynny.
- Esbonio pa ddulliau sy'n cael eu defnyddio e.e. aredig ac ailhau neu chwistrellu a thrin wyneb y tir.
- Nodi'r gweithgareddau hynny sy'n debygol o effeithio ar yr amgylchedd a thynnu sylw at unrhyw fesurau sy'n cael eu cymryd i leihau'r effeithiau andwyol ar y amgylchedd.
- Disgrifio pam mae'r prosiect yn cael ei gyflawni, gan egluro'r manteision e.e. cynyddu'r stoc neu'r porthiant ar gyfer y gaeaf.
- Esbonio'r dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried a pham y cawsant eu gwrthod. Cofiwch ystyried yr opsiwn "gwneud dim" ac wrth wneud hynny eglurwch sut effaith fyddai gwrthod yn ei chael ar y fferm.
- Dylech gynnwys cynllun neu fap o'r lleoliad ac, os yw'n berthnasol, ffotograffau i nodi'r tir yr effeithir arno. Efallai y bydd cynllun safle yn ddigonol ar gyfer prosiect bach. Ar gyfer cynnig mawr sy'n effeithio ar y dirwedd ehangach bydd angen map o'r ardal yn dangos golygfannau a'r effaith o'r lleoliadau hyn.
- Disgrifiwch nodweddion ffisegol y safle. Dylid ymdrin â phob agwedd a restrir yn Atodiad 1 er mwyn dangos eu bod wedi'u hystyried ond cyfyngu disgrifiadau a dadansoddiadau manwl i'r nodweddion hynny lle mae effeithiau amgylcheddol yn debygol o fod yn sylweddol.

## 2. Disgrifiad o effeithiau amgylcheddol

Nodweddion hanfodol Datganiad Amgylcheddol yw y dylai ragweld y newidiadau a fydd yn digwydd os caniateir i'r prosiect fynd yn ei flaen yn gywir a rhoi disgrifiad gwrthrychol ohonynt. Mae'n rhaid i bob newid amgylcheddol sylweddol gael ei ddisgrifio'n gywir a dylid darparu data meintiol lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Hefyd, mae angen ystyried a fyddai'r effeithiau wedi'u cyfyngu i'r safle neu ymhellach na hynny. Er enghraifft, bydd cae wedi'i wella yng nghanol rhostir i'w weld yn amlwg a gall effeithio'n andwyol ar ymddangosiad lled-naturiol y dirwedd ehangach.

Mae angen ystyried yr effaith ar bob elfen bwysig (llystyfiant, fflora a ffawna ac ati) ar wahân. Ar gyfer agweddau lle nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol, byddai'n ddoeth dangos eu bod wedi cael eu hystyried a pham y cawsant eu diystyru. Mae'n rhaid ystyried unrhyw golledion o blanhigion, rhywogaethau anifeiliaid neu gynefinoedd yr ystyrir eu bod yn bwysig o ran amcanion bioamrywiaeth rhyngwladol, y DU neu leol, yn ogystal ag a yw'r effaith yn effaith tymor byr, canolig neu hir ac a yw'r effeithiau'n barhaol neu'n rhai dros dro. Er enghraifft, os yw prosiect yn cynnwys lefelu tir, aredig rhostir grug, ac ail-hau glaswellt wedi'i wella, bydd yr effeithiau ecolegol a thirwedd i'w gweld yn syth ac yn barhaol. Fodd bynnag, bydd yr effeithiau o ran sŵn a llwch yn rhai tymor byr a dros dro ac yn dod i ben unwaith y bydd y cyfnod adfer wedi'i gwblhau.

Mewn rhai achosion, gallai'r safle fod o dan fygythiad newid waeth a yw'r prosiect yn mynd rhagddo ai peidio a gallai hyn effeithio ar y ffordd y penderfynir ar yr achos. Er enghraifft, gyda phrosiect i wella gweirglodd wlyb lle mae'n hysbys bod y weirglodd dan fygythiad oherwydd gwelliannau mawr i'r afon sydd y tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd, fe allai'r wybodaeth hon fod yn hollbwysig.

Mae'n bosibl y bydd rhai prosiectau'n cael effaith sylweddol ar bobl a chymunedau. Er enghraifft, a fydd effeithiau'r gwaith i'w gweld yn amlwg yn y dirwedd neu'n newid ei hymddangosiad o olygfan leol boblogaidd? Mae'n bwysig bod yr adroddiad yn nodi'n glir beth yw gwir natur yr effeithiau a sut yr eir i'r afael â phryderon y cyhoedd.

### Cofiwch

Bydd y Datganiad Amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd ei archwilio a gwneud sylwadau arno.

## 3. Arwyddocâd yr Effeithiau

Yn aml, y cam anoddaf i'w gymryd wrth baratoi'r Datganiad Amgylcheddol yw asesu arwyddocâd pob newid amgylcheddol a ragwelir a achosir gan y prosiect yn ei dro.

Ar gyfer pob effaith amgylcheddol a nodwyd, dylai'r adroddiad:

- Ddisgrifio ei bwysigrwydd.
- Esbonio'r rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad hwn.
- Tynnu sylw at unrhyw fuddiannau cadarnhaol heb orliwio.

**Enghraifft:**

Wrth asesu effaith y prosiect ar fywyd gwyllt, bydd angen pwyso a mesur arwyddocâd yr effeithiau yng ngoleuni polisïau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol a rheoliadau a luniwyd i amddiffyn mathau penodol o gynefinoedd a rhywogaethau.

- A yw'r safle wedi'i ddynodi i warchod cadwraeth natur?
- A yw'n cynnwys cynefinoedd, planhigion neu rywogaethau sy'n cael eu gwarchod dan reoliadau bywyd gwyllt a'r wlad neu sy'n cael eu crybwyll mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth (BAPS)?

Os yw'r safle yn cynnwys cynefin neu rywogaeth a warchodir, yna bydd effeithiau amgylcheddol eich prosiect yn dod yn fwy arwyddocaol – yn fwy byth os bydd yn cynnwys un o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol hyd yn oed.

Bydd y tebygolrwydd o effeithiau amgylcheddol sylweddol yn cynyddu po fwyaf o dir a gymerir. Fodd bynnag, mae lleoliad yn bwysig hefyd. Er enghraifft, efallai na fydd draenio 5 hectar o weirglodd wlyb mewn ardal lle ceir cannoedd o hectarau o bwys mawr, ond gallai mewnlenwi pwll mewn ardal lle nad oes llawer o gynefinoedd naturiol fod yn arwyddocaol iawn os yw'n torri coridor hollbwysig i fywyd gwyllt ac yn effeithio'n andwyol ar oroesiad rhywogaeth a warchodir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cynghori ynghylch pa gyrff statudol all gynnig cyngor ar ddehongli effeithiau penodol yn ystod y Cam Cwmpasu. Fodd bynnag, os nodir nifer o effeithiau amgylcheddol neu os oes materion cymhleth yn codi, yna dylid ystyried ceisio cyngor arbenigol proffesiynol.

## 4. Lliniaru

Pan fydd y cynnig yn cael effaith amgylcheddol benodol bydd angen ystyried a ellir ei addasu er mwyn lleihau neu wneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Os bydd mesurau i liniaru difrod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, dylid disgrifio'r rhain ynghyd ag asesiad o lefel y lliniaru neu'r camau cydadferol a gymerir.

**Enghraifft:**

Y bwriad yw defnyddio gweirglodd sy'n llawn perlysiau ar gyfer cadwraeth porfa.

Lliniaru: (1) Ei defnyddio ar gyfer gwair yn hytrach na silwair. (2) Gall gohirio torri tan ar ôl i blanhigion flodeuo liniaru effeithiau andwyol ar flodau gwyllt ac adar sy'n nythu.

Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i union natur yr effeithiau ac a fydd y cynigion yn mynd i'r afael â hwy'n ddigonol. Er enghraifft, efallai y bydd yn bosibl lliniaru'r effaith o golli pwll sy'n gynefin i'r fadfall ddŵr gribog drwy gloddio pwll arall addas a'i drosglwyddo iddo. Ar y llaw arall, ni fyddai colli cae deg hectar a ddefnyddir gan gornchwiglod ar gyfer nythu yn cael ei liniaru drwy blannu ardal goetir gan na fyddai hyn yn creu cynefin addas i gornchwiglod. Fodd bynnag, gallai ddarparu buddiannau amgylcheddol eraill y dylid eu disgrifio yn yr adroddiad.

**Crynodeb**

Dylai'r Datganiad Amgylcheddol fod yn ddigon eglur i alluogi partïon sydd â diddordeb i wneud penderfyniad deallus.

Dylai ddisgrifio'n fanwl gywir:

- Y prosiect a'r rhesymau drosto.
- Y safle lle y bwriedir ei gynnal.
- Natur ac arwyddocâd cyffredinol ei effeithiau ar yr amgylchedd.
- Mesurau i'w cymryd er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol andwyol.

Mae angen cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf adroddiad a'i chyflwyno gyda'ch cais am ganiatâd AEA. Yna caiff ei ddosbarthu i gyrff statudol a'i gyhoeddi.

Dylai gynnwys dwy ran – y prif adroddiad a chrynodeb annhechnegol. Fodd bynnag, gall fod yn fwy cyfleus gosod llawer o'r data technegol – mapiau, diagramau, ffotograffau, tablau data etc – mewn Atodiadau.

# Cyflwyno cais am Ganiatâd AEA

Rhaid i'r cais a'r Datganiad Amgylcheddol fod yn berthnasol i'w gilydd a chwmpasu'r un tir. Dylai'r holl wybodaeth am effeithiau amgylcheddol eich prosiect gael ei chynnwys yn y datganiad cysylltiedig.

### Cyflwynwch y dogfennau wedi'u cwblhau i:

Uned AEA
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
SY23 3UR

Fel arall, gallwch gyflwyno'r dogfennau wedi'u cwblhau drwy e-bost EIA.Unit@gov.wales

Cyn gynted ag y bydd eich cais a'ch Datganiad Amgylcheddol yn dod i law, byddwch yn cael cydnabyddiaeth ysgrifenedig ei fod wedi'i dderbyn. Gwneir penderfyniad fel arfer o fewn 70 diwrnod ar yr amod bod eich Datganiad yn ymdrin yn ddigonol â'r holl faterion perthnasol.

# Ymgynghoriadau

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ynghylch unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol cyn i benderfyniad gael ei wneud. Bydd y partïon yr ymgynghorir â hwy yn amrywio yn dibynnu ar y cais ond fel arfer byddant yn cynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru
- CADW
- Awdurdodau lleol

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a gellir ymgynghori â sefydliadau eraill yn dibynnu ar y prosiect sy'n cael ei gynnig.

Os bydd eich cais yn debygol o effeithio ar dir yn Lloegr, yna ymgynghorir â Natural England hefyd.

Bydd copïau o'ch cais yn cael eu hanfon at y cyrff perthnasol yn gofyn iddynt anfon ymateb o fewn 42 diwrnod.

Mae'n ofynnol hefyd i aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb gael cyfle i fynegi eu barn. Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd lleol sydd yn:

a) Datgan bod eich cais wedi'i dderbyn.

b) Rhoi cyfeiriad lle gellir ei archwilio am gyfnod o 28 diwrnod a chyfeiriad lle gellir prynu copïau pellach.

c) Nodi y dylai'r rhai sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ynghylch effeithiau amgylcheddol tebygol y cynnig wneud hynny'n ysgrifenedig i'r uned AEA o fewn 42 diwrnod i gyhoeddi'r hysbysiad papur newydd.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Os na fydd modd i'r cyrff perthnasol yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch eich cynnig fynegi barn am effeithiau amgylcheddol o bwys oherwydd diffyg gwybodaeth, efallai y bydd angen gofyn i chi am ragor o fanylion. Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chi i nodi'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen. Ni fydd modd asesu eich cais hyd nes bydd y wybodaeth hon wedi'i darparu.

Ar ôl derbyn y wybodaeth bellach, bydd yn cael ei hanfon at yr holl ymgyngoreion a chyhoeddir hysbysiad arall i'r wasg. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol darparu cyfnod pellach o 28 diwrnod ar gyfer ymatebion.

Efallai y bydd angen i staff technegol Llywodraeth Cymru neu un neu fwy o'r asiantaethau ymweld â'ch fferm hefyd i archwilio'r safle a thrafod y cynigion gyda chi. Gwneir hyn drwy apwyntiad a gallai gynnwys cyfleoedd i drafod syniadau ar gyfer lleihau effeithiau amgylcheddol y prosiect.

## Y Penderfyniad ynghylch Caniatâd

Ar ôl i'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu derbyn – neu pan fydd yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb ar ben – bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar eich cais.

## Cymeradwyo

Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu rhoi caniatâd i'ch prosiect fynd rhagddo, cewch wybod yn ysgrifenedig gan gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad a'r ystyriaethau sy'n sail iddo.
Bydd cynnwys o'r fath yn destun yr amodau canlynol:

- Dim ond i'r gwaith penodol a gwmpesir gan y cais a'r Datganiad Amgylcheddol y mae'r caniatâd yn berthnasol ynghyd ag unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Os ydych am ddiwygio'r prosiect ar y cam hwn, bydd angen cyflwyno cais newydd.
- Bydd y caniatâd yn mynd yn ddi-rym os na fydd y prosiect yn dechrau o fewn blwyddyn i ddyddiad ei roi.
- Bydd caniatâd hefyd yn mynd yn ddi-rym os na fydd y gwaith wedi'i gwblhau o fewn tair blynedd i ddyddiad y caniatâd. Efallai y bydd angen gwneud cyflwyniad newydd ar gyfer unrhyw waith sy'n weddill.

Os digwydd i'ch tir gael ei ddynodi yn Safle Gwarchod Natur Ewropeaidd ar ôl i ni roi caniatâd i chi, sy'n annhebygol iawn, yna bydd y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i adolygu'r penderfyniad gwreiddiol. Os bydd rhaid diddymu'r penderfyniad neu addasu'r caniatâd o ganlyniad, bydd gennych hawl i adennill costau unrhyw waith ofer gan Lywodraeth Cymru.

## Gwrthod

Os yw cynnig yn cael ei wrthod am fod ganddo effeithiau amgylcheddol sylweddol iawn, byddwch yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig. Byddwn yn esbonio'r rhesymau dros wrthod y cais ac yn rhoi gwybod i chi am eich hawliau i apelio.

## Hysbysu'r cyhoedd

Mewn achosion o gymeradwyo neu wrthod bydd y cyhoedd yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol, a
- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael gweld datganiad sy'n cynnwys y penderfyniad, y rhesymau drosto a manylion perthnasol unrhyw gamau lliniaru sydd i'w cymryd.

## Apeliadau

Os ydych yn anhapus â'r penderfyniad a wnaed gallwch apelio o fewn tri mis i'r dyddiad a ddangosir ar y llythyr penderfynu yn erbyn naill ai:

- Gwrthod rhoi caniatâd i'r prosiect, neu
- Amodau sydd wedi'u rhoi ar y caniatâd (yn yr achos hwn, mae'n ddoeth oedi cyn dechrau ar y gwaith hyd nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu).

# Atodiad 1

## Gwybodaeth mae angen ei chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol

Disgrifiad o'r prosiect, sy'n cynnwys gwybodaeth am y safle, cynllun, maint a nodweddion perthnasol eraill y prosiect, gan gynnwys yn benodol:

a) Disgrifiad o nodweddion ffisegol y prosiect cyfan a'r gofynion defnyddio tir yn ystod y cyfnod adeiladu, neu gamau gweithredu a gweithredol eraill.

b) Disgrifiad o brif nodweddion y prosesau cynhyrchu, er enghraifft, natur, maint a'r deunyddiau a ddefnyddir.

c) Amcangyfrif, yn ôl math a maint, o'r gweddillion a'r allyriannau a ddisgwylir (llygredd dŵr, aer a phridd, sŵn, dirgryniad, golau, gwres, ymbelydredd ac ati) sy'n deillio o weithredu'r prosiect arfaethedig.

Disgrifiad o'r agweddau amgylcheddol y bydd y prosiect arfaethedig yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt, gan gynnwys, yn benodol, poblogaeth, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau pwysig, gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol, y dirwedd a'r rhyngberthynas rhwng y ffactorau uchod.

Disgrifiad o effeithiau sylweddol tebygol y prosiect ar yr amgylchedd, a ddylai gwmpasu'r effeithiau uniongyrchol ac unrhyw effeithiau anuniongyrchol, eilaidd, cronnol, tymor byr, canolig a hir, parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol y prosiect sy'n deillio o:

- Fodolaeth y prosiect.
- Defnyddio adnoddau naturiol.
- Allyrru llygryddion, creu niwsans a dileu gwastraff.

Disgrifiad o nodweddion y prosiect a/neu fesurau a ragwelir er mwyn osgoi, atal neu leihau ac, os yw'n bosibl, gwneud iawn am effeithiau andwyol sylweddol tebygol ar yr amgylchedd.

Disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol a astudiwyd gan yr ymgeisydd, sy'n berthnasol i'r prosiect a'i nodweddion penodol, ac awgrym o'r prif resymau dros yr opsiwn a ddewiswyd, gan ystyried effeithiau sylweddol y prosiect ar yr amgylchedd.

Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd.

Disgrifiad o unrhyw anawsterau (diffygion technegol neu ddiffyg gwybodaeth) a wynebwyd gan yr ymgeisydd wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol.

### Rhaid i'r Datganiad Amgylcheddol:

a) Gael ei baratoi ar ran yr ymgeisydd gan unigolion sydd â digon o arbenigedd i sicrhau cyflawnder ac ansawdd y datganiad.

b) Cynnwys datganiad gan neu ar ran yr ymgeisydd sy'n disgrifio arbenigedd yr unigolyn a baratôdd y Datganiad Amgylcheddol.

c) Pan fydd barn Gwmpasu wedi'i chyhoeddi, dylai fod yn seiliedig ar y farn gwmpasu ddiweddaraf a gyhoeddwyd (i'r graddau y mae'r prosiect yn parhau i fod yr un fath â'r prosiect a oedd yn destun y farn honno), a

d) Chynnwys y wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol ar gyfer dod i gasgliad rhesymegol ar effeithiau sylweddol y prosiect ar yr amgylchedd, gan ystyried y wybodaeth a'r dulliau asesu cyfredol.